| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **6 MEHEFIN 2017** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2017** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 30 Ionawr 2017 hyd at 31 Mawrth 2017.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 13 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 3 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Diogelu – Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Corfforaethol | - | B | Atodiad 1 |
| Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi | Corfforaethol | - | B | Atodiad 2 |
| Defnydd o Gardiau Credyd | Corfforaethol | - | B | Atodiad 3 |
| Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 4 |
| Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 5 |
| Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | Economi a Chymuned | Ieuenctid | B | Atodiad 6 |
| Diogelu Rhag Colli Rhyddid | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | C | Atodiad 7 |
| Gweithwyr Cefnogol – Oedolion | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | C | Atodiad 8 |
| Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion, Iechyd a llesiant | Busnes | B | Atodiad 9 |
| Taliadau Uniongyrchol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Oedolion | - | Atodiad 10 |
| Rheolaeth Fflyd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | - | Atodiad 11 |
| Gwastraff Masnachol | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 12 |
| Trefniadau Recriwtio a Phenodi | YGC | Ar draws yr Adran | B | Atodiad 13 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchiwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- ***Trefniadau Diogelu – Sefydliadau*** (Corfforaethol). Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster "Diogelu" yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Cynhaliwyd yr archwiliad ar gais Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu.
- ***Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau*** (Corfforaethol). Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif swyddfeydd. Cynhaliwyd yr archwiliad ar gais y Rheolwr Gwybodaeth i gael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth staff ar faterion rheoli gwybodaeth yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth i'r Uned Rheoli Gwybodaeth.
- ***Ystadegau a Chyfrifiadau – Uwchradd*** (Addysg). Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau priodol ar gyfer derbyn ystadegau a chyfrifiadau a bod y wybodaeth yn gyflawn a chywir gan mai'r data hyn sydd yn sail i ddyraniad Grant Ôl-16.

**2.4 Archwiliadau Dilyniant**

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Plas y Don | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Derbyniol |
| Plas Hedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Derbyniol |
| Cynnal a Chadw Safleoedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gweithdai, Modurdai a Depos | Anfoddhaol |

2.4.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** - | pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl. |
| **Derbyniol** - | y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl. |
| **Anfoddhaol** - | nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu. |
| **Annerbyniol** - | y mwyafrif o'r argymhellion heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2017:

- Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli *(Economi a Chymuned)*
- Hafan *(Economi a Chymuned)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 30 Ionawr 2017 hyd at 31 Mawrth 2017, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**TREFNIADAU DIOGELU - GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn un o flaenoriaethau Cyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes hwn, un o'r camau sydd yn cael ei weithredu yw sicrhau fod pob aelod o staff mewn swyddi perthnasol yn cael eu gwirio trwy drefn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod holl staff y Cyngor sydd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus gyda gwiriad troseddol priodol a chyfredol (DBS).

2.2 Yn ystod yr archwiliad archwiliwyd sampl o swyddi ar draws y Cyngor a sicrhau bod gan y swyddogion ddadleniadau DBS priodol a chyfredol. Sicrhawyd bod gweithwyr newydd yn cael eu goruchwylio os nad yw'r Cyngor wedi derbyn y dadleniad ar eu cyfer cyn iddynt gychwyn yn y swydd. Yn ogystal, gwiriwyd bod trefniadau cadw a dinistrio'r dadleniadau yn cydymffurfio gyda gofynion.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae rheolaethau mewn lle ar gyfer sicrhau bod holl staff y Cyngor sydd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus gyda gwiriad troseddol priodol a chyfredol (DBS). Yn ogystal, mae trefniadau mewn lle ar gyfer gweinyddu'r dadleniadau.

3.1.1 Mae'r broses adnewyddu yn cael ei chyflawni mewn camau, sef:

3.1.2 Cam 1 - y Gwasanaeth Cefnogol yn cysylltu gyda'r swyddog neu eu Rheolwr Linell i'w hysbysu o'r angen i adnewyddu'r dadleniad ac yn anfon ffurflen gais. Fel rheol mae'r cam yma yn digwydd oddeutu 3 mis cyn i'r dadleniad gwreiddiol ddod i ben.

3.1.3 Cam 2 - mae angen dychwelyd y ffurflen i'r Rheolwr Llinell berthnasol i'w gwblhau ac yna byddai'n cael ei basio i'r Gwasanaeth Cefnogol i'w gydlofnodi a'i anfon ymlaen i Lerpwl i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'w wirio.

3.1.4 Cam 3 - unigolyn yn derbyn eu dadleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn dangos y dadleniad i'w Rheolwr Llinell a fydd wedyn yn hysbysu'r Gwasanaeth Cefnogol os ydynt wedi pasio ai peidio gan roi cyfeirnod a dyddiad y dadleniad er mwyn ei gofnodi yn y basdata. Nid yw'r Cyngor yn derbyn copi o'r dadleniadau yn uniongyrchol, felly mae'n bwysig bod yr unigolion yn dangos y dadleniadau yma i'w Rheolwyr Llinell. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos ac mae llawer o waith ac amser yn mynd i ymlid y Rheolwyr Linell / swyddogion yma er mwyn cael y wybodaeth berthnasol.

3.1.5 Yn ystod yr archwiliad cynhaliwyd 4 prawf, roedd y ddau brawf cyntaf yn cwmpasu sicrhau bod gan sampl o swyddogion ddadleniadau priodol ar gyfer eu swyddi. Detholwyd sampl o hysbysebion swyddi ers cychwyn y flwyddyn 2016 a gwiriwyd i weld pa fath o ddadleniad oedd ei angen ar gyfer pob swydd. Defnyddiwyd y basdata dadleniadau DBS i wirio os oedd gan yr unigolion yma ddadleniadau priodol, roedd

pob dadleniad yn briodol. Eto, defnyddiwyd y sampl yma i sicrhau bod gan y swyddogion mewnol ddadleniadau priodol yn dilyn newid mewn swydd. Roedd pob dadleniad yn briodol ar gyfer eu swyddi newydd.

3.1.6 Ar gyfer y trydydd prawf gwiriwyd bod y sampl wedi derbyn dadleniadau o fewn y 2 fis cyntaf o gychwyn y swyddi newydd. Roedd 21 allan o 24 ohonynt wedi eu derbyn o fewn yr amserlen yma. Roedd y 3 swyddog oedd yn weddill wedi cychwyn y broses o adnewyddu eu dadleniadau ac wedi anfon y ffurflenni i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae 2 o'r swyddogion yma yn parhau i fod ar gam 2 o'r broses ac angen cyflwyno eu dadleniadau. Mae'r archwiliwr yn ymwybodol bod sawl ymdrech wedi bod i geisio cael y wybodaeth yma.

3.1.7 Yn olaf defnyddiwyd y basdata i greu adroddiad o ddadleniadau lle mae'r dyddiad adnewyddu wedi pasio (Statws - wedi pasio). Mae'r adroddiad yma'n newid yn ddyddiol. Fel y nodir uchod, mae'r broses adnewyddu yn cychwyn oddeutu 3 mis cyn i'r dadleniad gwreiddiol ddod i ben ond oherwydd oedi gyda dychwelyd ffurflenni a.y.b. mae llawer o swyddogion heb ddadleniadau cyfredol am gyfnodau hir.

3.1.8 Mae'r swyddogion sydd heb dderbyn eu dadleniadau o fewn y cyfnod 2 mis yn parhau i fod ar gyfnod o oruchwyliaeth, fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar drefniadau'r adrannau / gwasanaethau.

3.1.9 Mae datblygiadau i'r System Hunan Wasanaeth yn golygu y bydd staff yn gallu gwirio pryd maent angen adnewyddu eu datganiadau DBS a fyddai'n cyflymu'r broses adnewyddu o fewn y Cyngor.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau diogelu - gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Codi ymwybyddiaeth swyddogion y Cyngor o'r angen i gyflwyno eu dadleniadau i'w Rheolwyr Llinell ac o'r angen i'r Rheolwyr Llinell yma hysbysu'r Gwasanaeth Cefnogol fel bod modd diweddaru'r basdata.
- Sicrhau bod yr Adrannau yn gweithredu yn unol â'u polisïau adrannol mewn perthnasedd a derbyn dadleniadau o fewn 2 fis o'r gweithiwr gychwyn y swydd, sef y cyfnod y gellir gweithio o dan oruchwyliaeth.

Atodiad 2

**TREFNIADAU DIOGELU - YMWYBYDDIAETH GWEITHWYR O'R POLISI CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu plant ac oedolion. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor am y Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus drwy ddylunio a dosbarthu holiadur i weithwyr sydd a chyfrif e-bost Gwynedd, gan gymharu'r canlyniadau gyda holiadur cyffelyb a wnaethpwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2015/16. Rhagwelir bydd adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr maes yn cael ei gynnal fel rhan o raglen waith 2017/18.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Cynhyrchwyd yr holiadur ar wefan '*limesurvey*' ac anfonwyd linc iddo drwy e-bost at holl weithwyr y Cyngor sydd gyda chyfrif e-bost. Llwyddwyd i dderbyn 703 o ymatebion allan o 2083 cyfrif e-bost, sef ymateb o 34%. Nid yw'r canran yma yn cymryd i ystyriaeth y gweithwyr oedd ddim yn y gwaith dros gyfnod yr adolygiad, megis ar salwch tymor hir neu famolaeth.

3.2 Dengys canlyniadau'r holiadur bod 84% o staff, allan o'r sampl o 703, yn ymwybodol bod gan y Cyngor Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Gwelwyd fod cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth o'r Polisi wrth gymharu ag ymarferiad 2015/16 ble darganfuwyd mai dim ond 80% oedd yn ymwybodol o'r Polisi ar y pryd. Mae'r cynnydd yn galonogol, ond hyd y bydd i'r ymwybyddiaeth gyrraedd 100%, gellir dadlau bod lle i wella o hyd. Dylid nodi mai un o'r manteision o gynnal arolygiad o'r fath yma yw'r effaith anuniongyrchol a gaiff ar godi ymwybyddiaeth gweithwyr.

3.3 Drwy gyfrwng eu rheolwyr llinell y death y mwyafrif o staff yn ymwybodol o'r Polisi, gyda e-Ddysgu a Hyfforddiant wedyn.

3.4 Gwelwyd bod 95% o'r gweithwyr sy'n ymwybodol o'r Polisi hefyd yn ymwybodol ac yn deall ei gynnwys. Mae hyn yn gynnydd ers adolygiad 2015/16 ble darganfuwyd mai 93% o weithwyr a oedd yn ymwybodol o'r Polisi a fynegodd eu bod yn deall y cynnwys. Fodd bynnag, wrth ystyried y sawl nad oedd yn ymwybodol o'r Polisi, ac felly wrth reswm ddim yn ymwybodol o'i gynnwys, mae'r canran yn disgyn i 81%.

3.5 Mae pob Adran o fewn y Cyngor wedi enwebu 'Rheolwr Dynodedig' mewn perthynas â materion diogelu. Mae dolen i'r rhestr o Reolwyr Dynodedig Adrannol wedi ei atodi i'r Polisi ar y Ganolfan Bolisi, ond ar amser yr archwiliad gwelwyd nad oedd y ddolen yn gweithio.

3.6 Mynegodd 58% o'r gweithwyr oedd yn ymwybodol o'r Polisi eu bod hefyd yn ymwybodol o bwy yw eu Rheolwr Dynodedig, sydd ychydig yn llai na'r 60% yn ystod 2015/16. Gan gynnwys y gweithwyr nad oedd yn ymwybodol o'r Polisi (ac felly yn ddamcaniaethol ddim yn ymwybodol o'u Rheolwyr Dynodedig), mae'r canran yn disgyn i 49%.

3.7 Gofynnwyd yn yr holiadur petai gweithwyr yn bryderus bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin, a fyddent yn gwybod beth i wneud fel aelodau staff. Gan ragdybio nad yw'r sawl sy'n ymwybodol o'r Polisi yn gwybod beth yw'r camau cywir (fel y nodir yn y Polisi), canfuwyd fod 75% o'r holl ymatebwyr yn credu eu bod yn gwybod beth i wneud mewn achos, gyda 8% ddim yn siŵr a 17% ddim yn ymwybodol.

3.8 Gofynnwyd i'r gweithwyr petaent mewn sefyllfa o fod yn ymwybodol neu'n amheus o gam-drin, a oes unrhyw rwystrau neu anawsterau a fyddai'n ei gwneud yn anodd iddynt rannu eu pryderon, hyd yn oed os ydynt yn gwybod y dylent. Mynegodd 6% resymau dros beidio rhannu eu pryderon, a dengys yma sampl o'r sylwadau.

- *Ofn fy mod yn anghywir ac nad yw'r unigolyn yn cael ei gam-drin*
- *Ar ôl adrodd ddim yn gwybod os oes dilyniant yn cael ei wneud i'r honiad*
- *That the person(s) concerned would know/find out that I had reported the concern*
- *The fact that when you place your concerns you get no feedback as to what has happend regarding the individual, or the situation.*
- *Ddim yn siŵr wrth pwy ddylwni rannu fy mhryderon (Pa Swyddog).*
- *Wedi adrodd yn y gorffennol ac yn ymwybodol o eraill sydd wedi adrodd a dim cymorth i'w gael, felly dim pwrpas adrodd*

3.9 Ar ddiwedd yr holiadur, croesawyd unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffai'r gweithwyr ychwanegu. Derbyniwyd sawl sylwad positif yn ogystal â rhai negyddol. Dengys isod sampl o'r sylwadau yma.

- *Nid yw'r linc o Atodiad 1 y polisi i'w weld yn arwain yn uniongyrchol at restr o reolwyr dynodedig.*
- *Policy termninology needs updating*
- *Oes na drefniant i sicrhau bod staff sydd heb mynediad i gyfrifiadur (rhai llawn amser a staff tymhorol) yn cael gwybod am y polisi yma?*
- *Byddwn yn bersonol yn hoff o weld dogfen/pamffled llai i gyda fynd gyda'r ddogfen bolisi, sydd yno i atgoffa y rhai sydd wedi darllen y ddogfen bolisi o'r prif bwytniau/egwyddorion.*
- *Hoffwn gael fy atgoffa o'r polisi o dro i dro - derbyn neges e-bost i'm hatgoffa i'w ddarllen.*
- *Wedi derbyn hyfforddiant gwael iawn drwy'r modiwl e-ddysgu*

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn ymwybyddiaeth o Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae**

**Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r drefn diogelu, drwy gymryd i ystyriaeth ganlyniadau'r holiadur a'r sylwadau a roddwyd gan weithwyr y Cyngor.
- Cadeirydd y Panel Diogelu Gweithredol i dderbyn yr holl sylwadau derbyniwyd fel rhan o'r adolygiad, er mwyn gweithredu fel yr angen.

Atodiad 3

# DEFNYDD O GARDIAU CREDYD CORFFORAETHOL

## 1. Cefndir

1.1 Mae 10 cerdyn prynu actif yn y Cyngor ar hyn o bryd; dau ohonynt o dan gyfrifoldeb y Gwasanaeth Cefnogol, ac wyth yn gyfrifoldeb gwasanaethau penodol eraill. Mae cardiau'r Gwasanaeth Cefnogol yn gweithredu fel rhai canolog y Cyngor, ble mae swyddogion o'r gwasanaethau sydd heb gerdyn eu hunain yn gwneud cais am wariant drwy gysylltu â'r Cymorthyddion Cefnogol.

1.2 Mae'r cardiau yn rhan o gynllun Welsh Purchasing Cards - Value Wales, a'r defnydd ohonynt yn cael ei weinyddu drwy'r system Barclaycard Spend Management (BSM). Mae'r broses bellach wedi ei lliflinio, ers y mudo i'r system hwnnw, ac felly'n llawer llai llafurus i'r defnyddwyr ar yr ochr weinyddol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd dadansoddi'r defnydd cyfredol a wneir o gardiau credyd ar draws y Cyngor i sicrhau bod rheolaethau priodol wedi eu sefydlu.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu asesu os yw'r broses o archebu gyda chardiau credyd yn cynnig cynildeb, adolygu'r trefniadau dros ddyroddi a defnyddio'r cardiau, a gwirio os yw'r wybodaeth berthnasol a gedwir gan y Cyngor yn briodol ac wedi ei ddiogelu.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Wrth i gerdyn prynu gael ei ddefnyddio i dalu am nwyddau neu wasanaethau, mae aelod o staff dynodedig yn mewnbynnu'r cod gwariant ac atodi'r dderbynneb TAW i'r system BSM. Yn dilyn hynny bydd swyddog arall o'r un gwasanaeth (deiliad y cerdyn fel arfer) yn cymeradwyo'r gwariant yn y system. Yng nghwrs yr archwiliad, gwelwyd un achos ble nad oedd gwahaniad dyletswyddau, gyda'r un person yn cyflawni'r ddwy dasg.

3.2 Gwelwyd achosion ble i gryn amser fynd heibio cyn i'r trafodion gael eu cymeradwyo gan ddeiliad y cerdyn neu ei ddirprwy. Nid yw'r trafodion yn cael eu llwytho i'r cyfriflyfr ariannol pe na baent wedi eu cymeradwyo, a golyga hynny fod oedi wedi bod cyn y gwelwyd nifer o eitemau o wariant yn y cyfriflyfr ac felly yn erbyn cyllidebau'r gwasanaethau dan sylw. Gwelwyd yn ystod yr archwiliad bod oediad o rai misoedd wedi bod ar achosion, a bod yno drafodion yn dyddio yn ôl cyhyd â 7 mis heb eu cymeradwyo.

3.3 Darganfuwyd achos ble roedd manylion mewngofnodi i'r system BSM yn cael eu rhannu rhwng aelodau o staff, ac o ganlyniad bu i swyddog o'r Uned Cyfalaf a Rheolaeth ddiwygio'r ddogfen fewnol 'Rheoliadau Cardiau Credyd' i fynegi na ddylai hyn ddigwydd.

3.4 Adolygwyd y ddogfen Rheoliadau Cardiau Credyd yn lled ddiweddar, ac mae'r fersiwn honno yn y broses o gael ei chymeradwyo'n derfynol. Cafwyd gwybod y byddai'r Rheoliadau'n cael eu dosbarthu i ddeiliaid y cardiau wedi i hynny ddigwydd.

3.5 Mae'r system BSM yn cadw delweddau (er enghraifft y derbynebau a gaiff eu hatodi i'r system) am gyfnod o 2 flynedd. Mae trafodaethau wedi digwydd o fewn y Cyngor o ran beth yw'r goblygiadau hirdymor. Ar hyn o bryd mae swyddogion unigol â dulliau eu hunain o gadw delweddau am gyfnod hwy (sydd yn golygu eu hargraffu a'u cadw mewn ffeil bapur ar rai achosion), ac mae'r swyddogion cyfrifol yn ymwybodol o'r angen i ail-ymweld â'r mater.

3.6 Mae angen atodi derbynebau TAW i'r system er pwrpasau adhawlio treth ar werth. Fe welwyd sawl achos ble nad yw'r ddogfen a lwythwyd i'r system yn dderbynneb TAW, er bod y Rheoliadau Cardiau Credyd yn nodi'r angen am hyn. Gwelwyd hefyd 2 achos ble yr atodwyd yr un dderbynneb ar gyfer 2 drafodyn gwahanol.

3.7 Mae'r Cymorthyddion Cefnogol (o'r Gwasanaeth Cefnogol) yn derbyn ceisiadau am wariant gan swyddogion o wahanol wasanaethau ar draws y Cyngor. Nid oes rhestr gyfredol o'r swyddogion sydd â'r awdurdod i wneud cais am wariant yn cael ei gadw, ac mae'r Cymorthyddion Cefnogol yn dibynnu ar eu profiad i wybod pwy sydd yn awdurdodedig yn hynny o beth.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Defnydd o Gardiau Credyd gan fod rheolaethau wedi eu sefydlu, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r gwasanaethau perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cytuno ar drefniant ar gyfer cadw delweddau electroneg y system BSM yn y tymor hir (gwybodaeth ariannol yn cael ei gadw yn y cyfriflyfr).
- Cymeradwyo'r fersiwn diwygiedig o'r Rheoliadau Cardiau Credyd, a'u dosbarthu i ddeiliaid y cardiau.

Atodiad 4

**TREFNIADAU DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Mae disgwyl i holl sefydliadau addysgol Gwynedd sicrhau bod ganddynt bolisi diogelu cyfredol a chynhwysfawr mewn lle. Disgwylir i holl staff newydd y Gwasanaeth Addysg, gan gynnwys ysgolion, ymgymryd â hyfforddiant Lefel 1/sylfaenol cyn gynted â phosib, yn unol â pholisi hyfforddiant diogelu corfforaethol Gwynedd. Yn ogystal, disgwylir i staff dderbyn hyfforddiant gloywi/adnewyddu o leiaf pob 3 blynedd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i amddiffyn a diogelu plant mewn ysgolion trwy wirio bod polisïau diogelu a radicaleiddio wedi eu mabwysiadu gan ysgolion y sir, a bod holl staff yr ysgolion, gan gynnwys staff ategol a llywodraethwyr wedi eu hyfforddi mewn materion diogelu.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod polisïau cyfredol mewn lle a'u bod wedi eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y corff llywodraethu perthnasol, yn ogystal â gwirio fod staff wedi derbyn hyfforddiant a hynny ar y lefel priodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn bodoli yn ysgolion Gwynedd, fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Mae 109 o ysgolion yng Ngwynedd yn cynnwys 14 ysgol uwchradd, 93 o ysgolion cynradd a 2 ysgol arbennig. Fe e-bostiwyd pob ysgol yn gofyn iddynt ddarparu copïau o'u Polisïau Diogelu a'u Polisïau Radicaleiddio cyfredol, cofnodion y cyfarfodydd ble bu i Gorff Llywodraethol yr Ysgol fabwysiadu'r polisïau ac unrhyw gofnodion hyfforddiant diogelu staff yr Ysgol (gan gynnwys staff ategol, arlwyo a.y.b.). Derbyniwyd ymateb gan 91% o'r ysgolion sef 99 ysgol. Hysbyswyd y Swyddog Diogelu Plant o'r ysgolion na dderbyniwyd ymateb ganddynt yn ogystal â'r ysgolion nad oedd gan bolisïau cyfredol. Mae'r Swyddog Diogelu Plant eisoes wedi cysylltu gyda'r ysgolion hyn.

3.1.2 Roedd y fersiynau o'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant a dderbyniwyd gan yr ysgolion yn amrywio. Roedd llawer o'r ysgolion yn defnyddio 'Polisi a Chanllawiau Diogelu y Gwasanaeth Addysg' sydd yn cynnwys 'Model Polisi Amddiffyn Plant Ysgol ABC'. Fodd bynnag, roedd rhai o'r polisïau yma a dderbyniwyd yn amlwg yn gopïau o dempledi'r Adran Addysg ac nid oeddynt wedi cael eu haddasu ar gyfer yr ysgolion perthnasol h.y. Ysgol ABC, dim enwau, llofnodion na dyddiadau. Serch hyn, roedd yn ymddangos bod y polisïau yma wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyrff Llywodraethu. Nid oedd polisïau eraill a dderbyniwyd yn ymddangos yn gyfredol, roedd rhai ohonynt wedi eu mabwysiadu sawl blwyddyn yn ôl, gydag un dyddio yn ôl i 1997. Roedd y rhan fwyaf o'r polisïau diogelu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond gwelwyd rhai cofnodion oedd wedi eu hadolygu diwethaf yn 2013, 2014 ac 2015.

3.1.3 Cafodd polisi 'Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio'/'Prevention of Radicalisation' ei gyflwyno i'r ysgolion yn ystod 2016, felly dylai bod pob ysgol bellach wedi mabwysiadu'r polisi. Roedd gan dair ysgol bolisi Saesneg sydd llawer byrrach a mwy cryno. Nid yw'n ymddangos bod gan rhai ysgolion bolisi oherwydd ni dderbyniwyd copïau ohonynt nac ychwaith unrhyw gofnodion o'r Corff Llywodraethol yn eu mabwysiadu. Gwelwyd bod cyfeiriad byr at radicaleiddio ym mholisïau Diogelu ac Amddiffyn Plant 2 o'r ysgolion yn nodi bod y Pennaeth wedi cwblhau uned 'Channel' ar adnabod arwyddion o Radicaleiddio ac wedi darparu arweiniad i'r staff. Eglurodd un ysgol nad yw'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r polisi gan fod polisi arall yn ei gwmpasu.

3.1.4 Wrth wirio manylion hyfforddi'r ysgolion gwelwyd bod cofnodion rhai ohonynt yn nodi nad oes angen iddynt adnewyddu eu hyfforddiant am 3 mlynedd er bod sawl aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 sydd angen ei adnewyddu'n flynyddol. Gwelwyd achos arall lle'r oedd rhan fwyaf o staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 yn 2015 ond heb ei adnewyddu'n flynyddol. Ni dderbyniwyd cofnodion hyfforddiant gan rai o'r ysgolion a chrynodeb yn unig gafwyd gan eraill.

3.1.5 Detholwyd sampl o 11 ysgol ar hap sef 10% o gyfanswm ysgolion Gwynedd (109). Crëwyd adroddiadau cyflogau ar gyfer pob ysgol a'i wirio yn erbyn eu cofnodion hyfforddi. Roedd pob ysgol wedi derbyn/cynnal hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ond gwelwyd bod rhai aelodau o staff yn parhau i fod angen eu hyfforddi h.y. y gweithlu cyfan heb gael eu hyfforddi.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn "Nhrefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant (Addysg)" gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Cais i'r ysgolion anfon y polisïau cyfredol
- Lle nad yw'r Cofnodion Llywodraethu wedi mabwysiadu polisïau - gofyn iddynt wneud hynny cyn gynted â phosib.
- Cais i'r 10 ysgol sydd heb ymateb o gwbl i ymateb ar fyrder.

Atodiad 5

**BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**CYLLID**

## 1. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

1.2 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

1.3 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17, archwilio sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwirio bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Asesu statws perfformiad y gwasanaeth ynglŷn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

## 2. Prif Ddarganfyddiadau

2.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau.

2.1.1 Mae'r swyddogion yn derbyn hyfforddiant fel bo'r angen ac yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, yn ogystal ag unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a ddaw i'r system.

2.1.2 Detholwyd sampl ar hap o geisiadau newydd gan wirio bod sgôr risg wedi ei gofnodi a'u bod wedi eu cyfrifo'n gywir a'u talu'n amserol. Yn ogystal gwiriwyd sampl o daliadau estynedig a cheisiadau am ôl-ddyddio a gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol ac eithrio un achos o ôl-ddyddio sydd eisoes wedi derbyn sylw gan y Rheolwr Budd-daliadau..

2.1.3 Gwelwyd eto eleni bod ystadegau perfformiad yr Uned mewn perthynas â'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu cais budd-dal newydd a phrosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau, yn dda wrth gymharu â pherfformiad ar draws Cymru a Phrydain.

## 3. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn System Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 6

**CYFRIFON CLYBIAU IEUENCTID**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae 42 o glybiau ieuenctid yng Ngwynedd yn cael eu rhedeg mewn trefi a phentrefi ledled y sir a'r rheiny'n cael eu cynnal rhwng unwaith a phum gwaith yr wythnos. Mae'r clybiau ar agor rhwng misoedd Medi ac Ebrill gyda rhai ohonynt ar agor tan fis Mehefin.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer gweinyddu cyfrifon clybiau ieuenctid Gwynedd, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yng nghyfrifon clybiau ieuenctid, ond mae agweddau wedi eu hadnabod lle gellir tynhau ar y trefniadau.

3.1.1 Mae trosiad staff y clybiau ieuenctid yn uchel iawn sydd yn golygu bod angen sicrhau bod y swyddogion cywir ar y mandadau banc. Er mwyn ychwanegu swyddogion i'r mandadau banc mae angen ymweld â'r banc a chwblhau ffurflenni gyda'u manylion personol er mwyn cadarnhau eu hunaniaeth. Eglurwyd bod peth trafferth ymweld â'r banc oherwydd gan amlaf mae gan yr Arweinyddion swyddi eraill ac nid yw'n bosib iddynt ymweld â'r banc yn ystod y dydd. Mae hyn yn broblem barhaus i'r gwasanaeth.

3.1.2 Mae gan bob clwb lyfr siec i'w ddefnyddio ar gyfer gwariant y clwb ond nid oes llawer o sefydliadau yn derbyn sieciau bellach ac eithrio sefydliadau mawr megis Tesco. Golyga hyn bod llawer o weithwyr y clybiau yn defnyddio arian eu hunain i brynu stoc i'r Bar Coffi, neu brynu nwyddau ar gyfer gweithgareddau ac offer. Byddant yn derbyn ad-daliad am y nwyddau o gyfrif y clwb drwy siec.

3.1.3 Yn ogystal â llyfr siec, mae modd i'r Arweinyddion wneud defnydd o gyfrifon arian parod (Petty Cash) ond nid oes llawer ohonynt yn eu defnyddio ond yn hytrach yn defnyddio arian eu hunain. Un o'r prif resymau dros ddefnyddio arian eu hunain a chael ad-daliadau yw bod llawer o fanciau wedi cau ac felly nid yw'r mynediad atynt mor hawdd yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.

3.1.4 Mae rhai o'r Arweinyddion yn prynu nwyddau i ddefnydd eu hunain ynghyd â nwyddau i'r clwb ar yr un adeg ac yn cyfrifo'r gwahaniaeth er mwyn cael ad-daliad ond mewn rhai o'r achosion hyn gwelwyd bod mân gamgymeriadau wedi digwydd h.y. y swm i'w ad-dalu yn cael ei gyfrifo'n anghywir.

3.1.5 Mae un swyddog wedi ei nodi fel 'Trysorydd' i lawer o'r clybiau ieuenctid sydd o dan ei oruchwyliaeth serch y ffaith nad yw'n gyfrifol am yr arian yn ddyddiol nac yn

ymwybodol o'r incwm a'r gwariant hyd iddo wirio'r datganiad banc y mis dilynol.

3.1.6 Mae manylion cyfrifon rhai o'r clybiau ieuenctid wedi ymddangos ar fancio personol un o weithwyr y gwasanaeth. Mae'r swyddog wedi ymweld â'r banc sawl gwaith mewn ymgais i dynnu'r cyfrifon yma oddi ar ei fancio personol.

3.1.7 Mae un o'r clybiau eisoes wedi derbyn cerdyn debyd ar gyfer cyfrif y clwb tra bod clwb arall yn y broses o gwblhau'r ffurflenni ar hyn o bryd. Mae rhai o'r clybiau eraill hefyd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â chael cerdyn debyd ar gyfer eu cyfrifon. Caiff y drefn yma ei beilota gan ddau glwb, ac os yw'n llwyddiannus gellir ystyried cael cardiau debyd ar gyfer y clybiau eraill hefyd. Eglurwyd mai'r Arweinydd yn unig fydd yn cael cerdyn ac os ydynt yn gadael y swydd bydd angen newid y mandad, dinistrio'r cerdyn a chael rhif PIN newydd. Dylid nodi na fydd defnydd o gerdyn debyd yn addas ar gyfer pob clwb.

3.1.8 Mae cyfrifon arian parod hefyd ar gael ar gyfer y clybiau sydd eisiau eu defnyddio, mae rhai clybiau eisoes yn eu defnyddio'n llwyddiannus. Buasai defnydd o 'Petty Cash' yn golygu bod modd i'r gweithwyr ddefnyddio'r arian mân i brynu nwyddau ar gyfer sesiynau a.y.b. yn hytrach na defnyddio arian eu hunain.

3.1.9 Mae swyddog o Gyngor Ynys Môn yn archwilio holl gyfrifon clybiau ieuenctid Gwynedd yn flynyddol oni bai am glwb Caernarfon. Wrth wirio'r cyfrifon gwelwyd mân wahaniaethau ar y taflenni 'Cyfrif Incwm a Gwariant 2015/16' a'r 'Datganiad o'r Fantolen 2014/15' .

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng Nghyfrifon Clybiau Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Atgoffa staff i beidio prynu nwyddau i'w hunain ar yr un pryd a phrynu nwyddau i'r clybiau. Yn ogystal, eu hatgoffa i gyflwyno derbynebau am unrhyw wariant - dim derbynneb, dim ad-daliad.
- Ceisio sicrhau bod y rolau ar y mandadau banc yn fwy perthnasol o hyn ymlaen.
- Swyddog i ymweld â'r banc gyda chais ysgrifenedig i dynnu cyfrifon y clybiau ieuenctid oddi ar ei fancio personol.
- Un clwb ieuenctid eisoes wedi derbyn cerdyn debyd ac mae clwb arall yn y broses o gwblhau'r gwaith papur er mwyn cael cerdyn debyd. Bydd y clybiau yma yn peilota'r cardiau er mwyn gweld os yw'n hwyluso trefniadau. Bwriedir gwerthuso'r drefn ym mis Ebrill a rhannu'r darganfyddiadau gyda'r gwasanaeth.
- Atgoffa Arweinyddion ac Is-Arweinyddion bod modd iddynt wneud defnydd o gyfrifon 'Petty Cash' petaent eu hangen, yn ogystal, petai angen cynyddu'r symiau arian parod bod rhaid iddynt gael caniatâd y swyddogion priodol.
- Adolygu addasrwydd y trefniadau presennol o gynnal a gweinyddu cyfrifon clybiau ieuenctid ar gyfer diben y Gwasanaeth, yn arbennig felly o ystyried fod y newid yn y byd bancio yn cael effaith ar allu'r gwasanaeth i ddilyn y trefniadau'n effeithiol.

Atodiad 7

**DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS) yn broses ble gall unrhyw un nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i gytuno â threfniadau ar gyfer ei lety, ei gefnogaeth a'i ofal, golli ei ryddid er ei les ei hun, a ble mae'r dewis yr un lleiaf cyfyngedig.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhau bod pobl Gwynedd sydd yn ymgartrefu mewn Cartrefi Gofal yn cael eu diogelu'n gyfreithlon rhag colli eu rhyddid. Gwiriwyd bod asesiadau angenrheidiol mewn perthynas â DoLS yn cael eu cynnal ar bobl Gwynedd yn amserol. Yn ogystal, gwiriwyd bod trefniadau mewn lle i sicrhau bod y swyddogion priodol yn cael eu hysbysu o sefyllfa ddiweddaraf yr unigolion a bod adolygiadau amserol yn cael eu cynnal ar yr unigolion.

2.2 Detholwyd sampl o unigolion yng Ngwynedd sydd eisoes yn amodol ar DoLS, er mwyn cadarnhau'r trefniadau asesu, hysbysu ac adolygu'r achosion yn y sampl.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod trefniadau yn bodoli mewn perthnasedd a threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ond bod angen tynhau ar rai agweddau yn bennaf ar adnoddau a hyfforddiant staff. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

3.1.1 Fe ddosbarthwyd canllawiau i staff y cartrefi yn 2014 yn esbonio'r drefn yn ogystal â rhannu ffurflenni sydd eu hangen i gyfeirio a.y.b. Dosbarthwyd ffeil i bob Cartref Preswyl a bu i'r Rheolwyr ar y pryd arwyddo i ddatgan eu bod wedi derbyn y pecyn.

3.1.2 Yn ddiweddar fe ddarparwyd llythyr yn nodi mai cyfrifoldeb y cartrefi ydi ail gyfeirio'r preswyliwr pan ddaw'r awdurdodiad DoLS presennol i ben yn ogystal â'u cyfrifoldeb hwy ydi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd os oes unrhyw newid a all effeithio ar awdurdodiad DoLS y preswyliwr yn y cyfamser. Caiff y llythyr yma ei anfon allan gyda phob awdurdodiad DoLS bellach er mwyn sicrhau bod y cartrefi preifat yn ymwybodol o'u dyletswyddau hwy.

3.1.3 Gwelwyd bod hyfforddiant wedi ei ddarparu yn y gorffennol ar gyfer Rheolwyr a Rheolwyr Cynorthwyol Cartrefi Gofal y Cyngor a staff Tai a Chefnogaeth, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn hyfforddiant yn 2015. Fodd bynnag, nid oedd rhai ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ers 2013 ac nid oedd 2 Reolwr Cynorthwyol Cartref Preswyl wedi derbyn hyfforddiant o gwbl.

3.1.4 Yn ystod yr archwiliad roedd adegau lle nad oedd modd cael mynediad i'r basdata cyfredol gyda manylion DoLS oherwydd absenoldeb tymor hir y Cymhorthydd Gweinyddol.

3.1.5 Mae gan y Cyngor niferoedd priodol o Aseswyr Pennaf Les (BIA's - Best Interest Assesors), ond nid ydynt yn gweithio llawn amser ar achosion DoLS, gan eu bod

mewn swyddi eraill o ddydd i ddydd sydd yn cael blaenoriaeth. Mae'r Tîm DoLS wedi cyflwyno bid i'r Cyngor am gyllideb ychwanegol tuag at gyflogi Aseswr Pennaf Les llawn amser er mwyn gwella'r gwasanaeth o ddelio gyda cheisiadau.

3.1.6 Mae nifer fawr o unigolion yng Ngwynedd yn disgwyl cael eu hasesu, rhai ers dros flwyddyn sydd ddim yn cydymffurfio â'r Ddeddf gan fod ceisiadau safonol fod i gael eu hasesu o fewn 21 diwrnod a cheisiadau brys o fewn 7 diwrnod. Fel y nodir uchod y broblem fwyaf yw'r diffyg adnoddau. Mae bid y Gwasanaeth wedi cael ei dderbyn ac mae cyllideb ar gyfer cyflogi un swyddog llawn amser am ddwy flynedd neu dau swyddog llawn amser am flwyddyn yn unig. Nid oes unrhyw benodiadau wedi eu gwneud hyd yma.

3.1.7 Yn dilyn y newid mewn cyfraith yn dilyn dyfarniad 'Cheshire West Case', y Crwner ddylai ddelio gyda marwolaeth unigolion sydd â DoLS arnynt, "As the Law now stands the death of every person subject to DoLS Order must be reported to the Coroner. I emphasize that there must be an Order in existence on the day of death." Nid oes modd gwybod os yw'r Cartrefi preifat yn hysbysu'r Crwner petai unigolyn â DoLS arnynt yn marw ond efallai y byddai modd ei gynnwys yn yr hyfforddiant neu anfon llythyr yn atgoffa'r cartrefi o'r gofynion gan gynnwys Tai â Chefnogaeth.

3.1.8 Mae'r Cyngor wedi adnabod dros 150 o unigolion sydd yn denantiaid yng Ngwynedd ac sydd efallai angen bod ag awdurdodiad DoLS arnynt. Hyd yma dim ond un achos sydd wedi ei ddarparu ar gyfer y llys. Deellir mai diffyg adnoddau i asesu'r unigolion sydd yn dal y broses yn ôl. Mae Cyfreithwraig wedi ei phenodi yn benodol i ddelio gyda'r achosion yma.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Diogelu Rhag Colli Rhyddid gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Bwriedir creu canllaw syml i'w ddosbarthu yn ystod yr hyfforddiant.
- Mae hyfforddiant wedi ei drefnu ym mis Gorffennaf 2017, cynhelir 4 sesiwn dros 2 diwrnod (2 sesiwn Cymraeg a 2 Saesneg). Bwriad yr hyfforddiant fydd codi ymwybyddiaeth am DoLS a bydd Rheolwyr Cartrefi Preswyl, Nyrsio a Phreifat yn cael gwahodd i'r sesiynau yma.
- Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl a'r Cydlynydd DoLS i drafod gyda'r Cymhorthydd Gweinyddol bod angen iddynt gael mynediad i'r basdata byw yn hytrach na derbyn copïau o'r ddogfen. Sefydlu mynediad darllen yn unig gan mai'r Cymhorthydd Gweinyddol yn unig sydd yn diweddaru'r manylion.
- Mae bid y Gwasanaeth wedi cael ei dderbyn ac mae cyllideb ar gyfer cyflogi dau swyddog llawn amser am flwyddyn. Bydd y swyddi yma yn cael eu hysbysebu'n fewnol yn yr wythnosau nesaf a gobeithir y bydd swyddogion wedi eu penodi erbyn Mehefin/Gorffennaf 2017.
- Ymgorffori'r elfen yma i'r hyfforddiant a gynhelir ym mis Gorffennaf.

Atodiad 8

**GWEITHWYR CEFNOGOL - OEDOLION**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Prif swyddogaethau Gweithiwr Cefnogol yw cefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth i fyw mor annibynnol â phosib drwy gynnig cymorth gyda thasgau dydd i ddydd (er enghraifft cadw tŷ), rhoi cymorth o ran cymdeithasu, a rhoi ysbaid i'r gofalwyr.

1.2 Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei reoli o dan y Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref, ac felly nid yw'n rhan o ddyletswyddau'r Gweithiwr Cefnogol i ddarparu gofal personol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer diwallu anghenion defnyddwyr fel yr amlinellir yn eu Cynlluniau Gofal.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu'r trefniadau sydd yn ymwneud â swyddogaethau Gweithwyr Cefnogol, drwy sicrhau bod trefniadau recriwtio, hyfforddi, monitro gweithgareddau a gweinyddu cyflogau ac ad-daliadau costau yn briodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd nad oes swydd ddisgrifiad cyfredol gan y gwasanaeth ar gyfer swydd Gweithiwr Cefnogol, ac fe gytunwyd felly bod angen cynnal adolygiad ohono.

3.2 Gwelwyd achosion ble roedd dyddiad dadleniad DBS gweithwyr newydd yn hwyrach na'r dyddiad a gofnodwyd ar ffurflenni penodiad newydd staff (ffurflenni TR139). Mynegodd y rheolwyr a'r goruchwylwyr perthnasol eu bod yn ymwybodol o'r drefn ddisgwyliedig a'r rheolau gyda dadleniadau DBS, ac fe gafwyd gwybod na fyddai Gweithiwr Cefnogol yn cael ei gynnwys ar amserlen pe na fyddai dadleniad derbyniol a chyfredol ganddynt.

3.3 Mae amheuaeth gan y rheolwyr perthnasol fod rhai Gweithwyr Cefnogol yn darparu gofal personol i'r defnyddwyr gwasanaeth serch y ffaith nad yw hyn yn syrthio i gwmpas eu dyletswyddau.

3.4 Deallir bod cynnal goruchwyliaeth ffurfiol gyda'r Gweithwyr o bwysigrwydd uchel i'r gwasanaeth, ond bod hynny'n profi i fod yn anodd ar adegau gyda chymaint o staff i'w goruchwylio'n gyfnodol. Mae gan y rhan helaeth o'r Gweithwyr Cefnogol swyddi a chyfrifoldebau eraill yn ogystal, ac ystyrir bod hynny'n ychwanegu rhwystr wrth geisio trefnu amser ar gyfer cynnal yr oruchwyliaeth.

3.5 Darganfuwyd nad oedd cynlluniau gofal nifer helaeth o'r defnyddwyr gwasanaeth yn gyfredol nac yn cwmpasu gwybodaeth angenrheidiol fel y gall y Gweithiwr Cefnogol gefnogi'r unigolyn yn y dull mwyaf priodol. Mae ymrwymiad gan y gwasanaeth i adolygu strwythur y cynlluniau gofal i sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac i sicrhau bod cymorth adeiladol yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth. Hynny yw, bod y Gweithwyr Cefnogol yn cefnogi mewn ffordd a fyddai'n cynorthwyo gyda datblygiad y defnyddiwr gwasanaeth, ac ystyrir fod angen i'r cynlluniau gofal fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau er mwyn medru cyflawni hyn yn effeithiol.

3.6 Roedd dau achos o fewn y sampl o staff a archwiliwyd ble nad oedd eu hyfforddiant Diogelu / POVA yn gyfredol. Yn aml, nid oes gan y Gweithwyr Cefnogol gyfeiriad e-bost y Cyngor ac o ganlyniad dim mynediad at y porth e-ddysgu.

3.7 Gwelwyd fod achosion ble mae Gweithwyr Cefnogol wedi hawlio nifer helaeth o gostau teithio mewn wythnos, e.e. gwelwyd bod gweithiwr yn hawlio 200-300 o filltiroedd yn wythnosol sydd yn fwrdwn ar y gyllideb. Eglurwyd bod y Goruchwylwyr yn ceisio cysylltu Gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth mewn modd effeithlon, ond bod materion yn gallu codi sydd tu hwnt i'w rheolaeth megis yr angen i weithiwr penodol weithio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Bydd cynnal adolygiad o strwythur y cynlluniau gofal – a'u gwneud yn fwy rhagnodol o ran y gweithgareddau sydd i'w cynnal ynghyd â'r lleoliadau gyda'r potensial o arwain at leihad yn y costau teithio a delir

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Gweithwyr Cefnogol – Oedolion, gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau sydd wedi eu sefydlu. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Adolygu swydd ddisgrifiad Gweithiwr Cefnogol (ar gyfer pob gwasanaeth).
- Cynnal archwiliad i ddarganfod a oes defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal personol gan y Gweithiwr Cefnogol, gan eu cyfeirio at y gwasanaeth priodol os oes.
- Gwneud trefniadau i roi cymorth ymarferol i reolwyr llinell y Gweithwyr Cefnogol gyda goruchwylio staff.
- Trefnu bod cynlluniau gofal y defnyddwyr gwasanaeth wedi eu cyflwyno ar ffurf sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, gan symud ymlaen i lunio cynlluniau cyflenwi sy'n seiliedig ar y cynlluniau gofal.

Atodiad 9

# TREFN GWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn argymhelliad i'r Cabinet gan Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae trefniadau cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eu rhannu i gyd-fynd â'r strwythur Plant ac Oedolion; er bod nifer o ddarganfyddiadau'r archwiliad yn berthnasol i'r ddwy adran. Er mwyn grymuso cynghorau Cymru i allu ymateb i'r cwynion yma, cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae gwrando ar gwynion defnyddwyr yn cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd sef adnabod anghenion defnyddwyr er mwyn siapio a gwella trefniadau gwaith a'r gwasanaeth a roddir i bobl Gwynedd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle i'r Cyngor allu ymdrin â chwynion mewn ffordd effeithiol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau gan hefyd ystyried goblygiadau'r drefn o ran penodi ymchwilwyr annibynnol a chynnal system gyfrifiadurol yn ddiogel.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae'r Adran yn llwyddo i ymchwilio i mewn i gwynion yn effeithiol ac yn osgoi'r angen i fwyafrif helaeth o ymchwiliadau oresgyn i ymchwiliadau 'cam 2'. Er hyn, ymddengys na ddilynir cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad ddim yn manteisio ar gyfleoedd i wella. Drwy wrando ar bobl Gwynedd, gellir gwneud newid sylfaenol i'r ffordd y mae'r Adran yn gweithredu a gwella gwasanaeth drwy ddysgu gwersi ohonynt.

3.1.1 Ymddengys fod nifer helaeth o ymholiadau yn dod i'r gwasanaeth all wedi eu trafod yn uniongyrchol gyda rheolwr yr Unedau gan roi cyfle iddynt ddelio hefo materion a dysgu ohonynt eu hunain. Nid yw hyn yn golygu troi cwynion i ffwrdd, ond newid arferion a diwylliant rhwng y gwasanaethau a'r defnyddwyr.

3.1.2 Er bod rhywfaint o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ynglŷn â gwneud cwyn a'r drefn, mae lle yn fan hyn i hybu'r diwylliant newydd o Unedau yn defnyddio cwynion i wella eu gwasanaeth. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hefyd wedi dyddio.

3.1.3 Yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru, ni welir tystiolaeth fod cwynion yn cael eu trafod gyda'r defnyddwyr mewn cyfarfod nac mewn sgwrs ffôn ffurfiol cyn cau'r cwyn. Yn dilyn ymchwiliadau, mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn trafod y ffordd ymlaen ar ôl cau cwyn. Gwelwyd fod cynnwys sgyrsiau ffôn yn cael eu cadarnhau yn y llythyr ffurfiol sy'n cau cwynion.

3.1.4 Mae llythyrau ffurfiol yn cael eu defnyddio i esbonio pam nad yw’r Cyngor ar fai yn hytrach na chydnabod ac ymddiheuro am gamweithredu neu gamgymeriad. Gyda’r un ystum nid oes datrysiad yn cael ei gynnig i anhapusrwydd defnyddwyr gyda’r gwasanaeth. Pan fydd cwyn yn cael ei wneud am weithrediad sy’n cyd-fynd â pholisïau, ni welwyd ystyriaeth yn cael ei roi i ymchwilio i mewn i addasrwydd polisïau, er pwrpas gwella gwasanaeth i’r defnyddiwr.

3.1.5 Gan mai trosolwg o gwynion gaiff eu trafod yn y tîm rheoli, golyga hyn fod rhai cwynion yn cael eu methu a dim ond materion sy’n codi mwy nac unwaith sy’n cael sylw. Yn dilyn trafod y materion sy’n codi, nid oes dilyniant ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf, ac felly nid oes sicrwydd llawn fod yr hyn a gytunwyd yn cael eu gweithredu.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Nhrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r Uned Gofal Cwsmer wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Cyfarfod pryd bo’n briodol yn seiliedig ar bob achos.
- Edrych ar eiriad llythyrau gan ystyried y darllenydd.
- Creu Log Gwersi a’i weinyddu yn barhaus.
- Cynnig awgrymiadau yn y ffurflen gwynion i reolwyr, ac hefyd sôn amdanynt yn yr ebost a anfonir.
- Cynnwys pob cwyn yn yr adroddiad chwarterol i’r Tîm Rheoli Adran.
- Darparu crynodeb o ymholiadau i reolwyr ac uwch-reolwyr perthnasol yn reolaidd.
- Cynnwys dilyniant i log gwersi yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli’r Adran i gadarnhau fod gweithredu yn digwydd.
- Annog rheolwyr i ddod i fyny hefo opsiynau gwahanol gyda chefnogaeth Tîm Rheoli’r Adran.

Atodiad 10

**TALIADAU UNIONGYRCHOL**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael ei gynnig fel opsiwn ar gyfer diwallu anghenion gofal pan fo'r penderfyniad yn cael ei wneud fod hynny'n addas. Mae'n golygu y gall unigolyn ddewis ei ofal a darparwr ei hun, gan hefyd ystyried eu datblygiad personol o ran sgiliau ac agweddau cymdeithasol. Yn 2015, adolygwyd polisi Taliadau Uniongyrchol y Cyngor gan addo gweithredu i ddatrys yr achosion isod:

- Cyfathrebu gwael a diffyg gwybodaeth addas
- Aneglurder ynglŷn â rhannau o'r polisi, a chymhlethdodau diangen
- Pwyslais ar adolygu gwariant yn hytrach na chanlyniadau i bobl
- Prinder cefnogaeth ddigonol i bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol, megis cefnogaeth i gwrdd â'r gofynion sy'n dod yn sgil bod yn gyflogwr
- Biwrocratiaeth ddiangen.

1.2 Yng nghynlluniau arbedion yr adran ar gyfer y 3 mlynedd nesaf, mae arbediad o £190,000 wedi ei adnabod, yn seiliedig ar gostau canolog llai o weithredu'r drefn Taliadau Uniongyrchol. Byddai methiant y gwasanaeth i gyflawni'r newid yma, a denu mwy o ddefnyddwyr i ddefnyddio'r modd yma o ddiwallu anghenion, yn risg i lwyddiant cyflawni arbedion y Cyngor.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod canlyniadau i bobl yn cael eu gwireddu, a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y sail yma. Gan fod risg i'r Cyngor o beidio cyflawni arbedion, roedd yr archwiliad yn cwmpasu rheolaeth ariannol y Gwasanaeth, a'r penderfyniadau maent yn eu gwneud wrth ddyrannu Taliadau Uniongyrchol drwy holi rheolwyr perthnasol ac edrych ar sampl o drywydd penderfyniadau ynghyd â dogfennau eraill.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae'r drefn Taliadau Uniongyrchol mewn sefyllfa aeddfed i dderbyn mwy o ddefnyddwyr a chyflawni arbedion yn sgil hynny, ac mae'n gyfrifoldeb i'r gwasanaeth nawr i gydweithio gyda'r Gweithwyr Cymdeithasol i hybu'r opsiwn. Wrth fynd ymlaen i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ymhellach dylid ystyried rhai meysydd i'w rheoli:

3.1.1 Gellir darparu mwy o wybodaeth am y cynllun ac mewn ffyrdd gwahanol. Er bod y Gweithwyr Cymdeithasol wedi eu hyfforddi i drafod y cynllun gyda defnyddwyr, mae'n bosib y byddai'n well gan rai unigolion gael gwybodaeth mewn dulliau gwahanol.

3.1.2 Wrth ddatblygu trefn monitro, gydag egwyddorion Ffordd Gwynedd mewn cof, mae'n bosib y byddai gan y cwmni darparu rôl yn y broses. Bydd yn anodd gosod trefn monitro sensitif gan ystyried y byddai Gweithiwr Cymdeithasol yn caniatáu a chydweld â dulliau dyfeisgar o gyflawni allbynnau, ac felly byddai'n fuddiol eu

cynnwys yn y drefn.

3.1.3 Mae cyfle i osod gwerth y taliadau yn seiliedig ar yr anghenion o ran gweithgareddau yn hytrach nag oriau gofal, a hefyd creu cyfle iddynt feddwl am ffyrdd mwy dyfeisgar o gyflawni allbynnau.

3.1.4 Petai angen hawlio arian yn ôl, byddai'r drefn anfonebu yn gallu gweithio'n fwy effeithiol, ond bydd angen ystyried trafod gyda'r unigolion i gytuno fod arian yn cael ei hawlio yn ôl.

3.1.5 Mae lle i leihau'r cyfnod mae'n cymryd i derfynu taliadau, gan ystyried y byddai osgoi unrhyw daliadau diangen hefyd yn arbed gwariant a'r angen i hawlio'r arian yn ôl.

3.1.6 Mae angen trefn o fonitro'r cwmni darparu er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hochor o'r cytundeb er mwyn i ddefnyddwyr allu derbyn gofal o fewn cyfnod derbyniol.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**Oherwydd bod y gwasanaeth mewn sefyllfa drosiannol, barn Archwilio Mewnol yw na fyddai'n briodol gosod categori barn ar hyn o bryd. Er hyn adnabuwyd agweddau sydd angen sylw a'u rheoli wrth fynd ymlaen.**

**Mae'r Adran wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Ystyried ffyrdd amgen o hyrwyddo'r polisi.
- Sefydlu trefniadau monitro addas ar daliadau ynghyd â sicrhau bod y cwmni yn cwrdd â goblygiadau'r cytundeb.
- Pwyslais ar fonitro taliadau a wneid i'r "unigolyn addas" oherwydd bod risg uwch o gamddefnydd o'r taliadau.
- Y gweithiwr Cymdeithasol i gynnal adolygiad o anghenion ar sail reolaidd.
- Sefydlu trefniant gyda'r Gwasanaeth Incwm i godi anfoneb drwy'r modiwl dyledwyr yn hytrach nag anfon llythyrau.

Atodiad 11

**RHEOLAETH FFLYD**
**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Gwasanaeth TG wedi bod yn datblygu system tracio cerbydau newydd ar ran y Gwasanaeth Fflyd. Ar amser yr archwiliad, nid oedd y system yn gwbl weithredol, ac yn cael ei rhedeg oddi ar y 'serfer' prawf. Disgwylir y bydd arbedion ariannol yn deillio o ddatblygu system mewnol sydd wedi ei deilwra i anghenion Gwynedd, sy'n cymryd lle'r system allanol presennol gyda photensial i'w werthu ymlaen unwaith mae'r system yn fyw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.2 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y system rheoli fflyd newydd yn gweithio'n gywir, mewn ffordd sy'n ddefnyddiol i'r Cyngor reoli ei fusnes, a hefyd sicrhau fod defnydd llawn ac addas o'r system yn cael ei wneud. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer defnyddio'r system a'r allbynnau ac adroddiadau a gynhyrchir o'r system.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Nid oedd y system yn gwbl weithredol ar amser yr archwiliad. Golyga hyn bod yr archwiliad yn gyfyngedig i brofi deilliannau y system brawf yn unig. Mae disgwyl i'r system drosglwyddo i'r 'serfer' byw cyn bo hir, ac yn dilyn ychydig o waith datblygu pellach bydd y system newydd lawn mewn lle.

3.2 Gan nad yw'r system yn fyw, nid oedd yn bosib gwirio sut mae rheolwyr y Cyngor yn ei ddefnyddio ar gyfer pwrpas monitro. Mae rhan helaeth o'r teithiau a gofnodwyd ar y system yn nodi 'Cerdyn adnabod heb ei gyflwyno' felly nid yw'r system wedi gallu adnabod pwy yw'r gyrrwr. Yn wreiddiol, 'roedd disgwyl i pob gyrrwr ddefnyddio eu cardiau adnabod cyn gallu dechrau'r cerbyd ond yn dilyn adolygiad o risg, penderfynwyd caniatáu i yrwyr allu defnyddio cerbyd heb gerdyn adnabod, ond bydd adroddiad yn mynd i'r Rheolwyr i geisio adnabod pam a phwy.

3.3 Gwelwyd bod gan y system y gallu i wneud amrywiaeth o adroddiadau gan gynnwys, ymysg eraill, adnabod goryrru, cerbydau yn segur, llwybr teithiau, amseroedd cychwyn a gorffen, dadansoddi oriau gyrru unigolion ayb. Fodd bynnag, gan nad yw'r system yn fyw, nid oes modd gweld pa ddefnydd mae rheolwyr yn ei wneud ohono. O ran profi cywirdeb y wybodaeth, gwelwyd fod y Gwasanaeth TG wedi cymharu yn llwyddiannus y wybodaeth o'r system prawf gyda darlleniadau y system allanol presennol, sydd dan gytundeb hyd Ebrill 2017. Fodd bynnag, darganfuwyd bod y system prawf yn nodi bod rhai cerbydau wedi goryrru, ond wrth ddadansoddi'r teithiau perthnasol, gwelwyd nad yw'r 'goryrru' yn gywir gan y gwelwyd nad yw'r cerbydau wedi symud llawer, os nad dim. Yn dilyn cyfeirio hyn at sylw y Gwasanaeth TG, gwelwyd bod yr adroddiadau bellach yn gywir.

3.4 Mae’r Gwasanaeth Fflyd wedi bod yn datblygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer y defnydd a rheolaeth o gerbydau’r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys ymysg eraill Polisi Fflyd, Gweithdrefnau Gyrrwr Diogel, Gweithdrefnau Cerbyd Diogel, Gweithdrefnau Siwrnai Ddiogel a Pholisi Tracio Cerbyd. Mae’r Polisïau yn ddrafft ar amser yr archwiliad, ond disgwylir i’w cyhoeddi yn ffurfiol maes o law. Mae’n hanfodol bod gyrwyr y Cyngor yn ymwybodol o’r Polisïau ac felly yn ymwybodol bod y Cyngor yn monitro eu patrymau gyrru.

**4. Barn yr Archwiliad**

**Tybir ei fod yn gynamserol i roi barn swyddogol ar yr archwiliad gan nad oedd y system yn gwbl weithredol ar amser yr archwiliad.**

Atodiad 12

**GWASTRAFF MASNACHOL**
**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Cyngor yn casglu gwastraff masnachol, deunyddiau ailgylchu a gwastraff bwyd gan nifer o fusnesau Gwynedd. Yn unol â Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011, mae angen i bob awdurdod sydd yn casglu gwastraff, sicrhau fod trefniant mewn lle ar gyfer casglu papur, metel, plastigion a gwydr ar wahân i'r gwastraff a gesglir, at bwrpas ailgylchu.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.3 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol mewn lle wrth reoli a gweinyddu Gwasanaeth Gwastraff Masnachol y Cyngor, gan gynnwys cydymffurfio â'r rheoliadau gwastraff perthnasol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gytundebau ac anfonebau, y basdata a'r rhestrau casglu, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o annog busnesau i ddefnyddio'r Gwasanaeth ac i ailgylchu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gan nad yw casglu gwastraff masnachol yn gynwysedig yn y dreth fusnes, mae'r gwasanaeth yma yn cael ei wneud am ffi. Mae gan fusnesau ddyletswydd i waredu eu gwastraff yn gyfrifol, ond nid oes gorfodaeth arnynt i ddefnyddio'r gwasanaeth a gynigir gan y Cyngor. Er bod casglu gwastraff masnachol yn gyfle i'r Cyngor dderbyn incwm ychwanegol, rhaid cadw mewn ystyriaeth mai un o'r prif resymau dros fodolaeth y gwasanaeth yw sicrhau fod y gwasanaeth ar gael o fewn ardaloedd ble nad yw cwmnïau casglu gwastraff preifat yn barod i weithredu, megis ardaloedd gwledig a phendraw Llŷn.

3.2 Er bod gan y Cyngor y gallu i adnabod holl fusnesau'r Sir, nid yw'r Gwasanaeth yn ymgyrchu'n frwdfrydig i dargedu a cheisio ennill cwsmeriaid newydd, gan y gellir gweld hynny fel defnydd annheg o adnoddau'r Cyngor. Fodd bynnag, gwelwyd ymdrechion i gadw cwsmeriaid drwy gyflwyno cytundebau cylchdroi, sy'n adnewyddu eu hunain yn flynyddol ac yn lleihau gwaith gweinyddol.

3.3 Yn sgil cynnydd diweddar mewn cystadleuaeth, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth fod yn wyliadwrus na fydd busnes yn lleihau gormod, ac efallai ei fod yn gyfle i dargedu cwsmeriaid newydd.

3.4 Mae'r llythyr gaiff ei anfon at fusnesau gyda'r cytundebau yn nodi gofynion Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011. Er mwyn hyrwyddo ailgylchu, mae'r Cyngor yn cynnig ffioedd llawer llai am y gwasanaeth er mwyn annog busnesau i leihau eu gwastraff gweddilliol.

3.5 Rhedwyd adroddiad oddi ar y basdata er mwyn amlygu busnesau sydd ddim yn derbyn gwasanaeth casglu ailgylchu gan y Cyngor. Gan fod addasiadau i gytundebau (megis ychwanegu casgliad) yn cael ei drin fel cytundeb newydd, nid oedd modd gweld yn

union faint o fusnesau sydd ddim yn derbyn gwasanaeth casglu ailgylchu gan y Cyngor, ond gwelwyd fod yr adroddiad yn awgrymu bod y niferoedd yn uwch na'r disgwyl.

3.6 Mae Tîm Masnachol a gaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Adran bellach yn penderfynu ar ffioedd y Gwasanaeth. Cytunwyd i beidio datgelu'r ffioedd yn gyhoeddus er mwyn peidio rhoi mantais i gystadleuwyr. Fodd bynnag, darganfuwyd bod prisiau 2016-17 ar wefan y Cyngor. Yn dilyn dod a hyn i sylw'r Gwasanaeth, gwnaethpwyd cais i dynnu'r wybodaeth oddi arno, a gwelwyd bod hyn bellach wedi ei weithredu.

3.7 Nid oedd modd rhoi sicrwydd bod Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth y Cyngor, yn ogystal â threfniadau Canu'r Gloch wedi ei gylchredeg i gasglwyr gwastraff, ond bod disgwyl i Arweinyddion drafod materion fel hyn mewn cyfarfodydd tîm.

3.8 Darganfuwyd nad yw'r basdata yn gallu cyfrifo costau pob cytundeb ar hyn o bryd, a bod y Gwasanaeth yn ddibynnol ar daenlen i gyfrifo costau pan mae newid i'r cytundeb yng nghanol blwyddyn.

3.9 Wrth gynnal archwiliad gweledol o'r biniau ar fore casglu, cymharwyd y biniau gyda'r basdata a'r rhestr gasglu. Gan nad yw enw'r busnesau ar y biniau (gan mai eiddo'r Cyngor ydynt), nid oedd modd gwneud dadansoddiad manwl, yn enwedig mewn lleoliadau ble cedwir clwstwr o finiau gan wahanol fusnesau. Gwelwyd ond un enghraifft o'r Cyngor yn casglu sachau cwmni nad oedd ar y rhestr casglu, ond yn yr achos yma sachau Gwynedd oeddynt oedd wedi eu prynu beth amser yn ôl. Fodd bynnag, gellir ddehongli bod risg i'r Cyngor gasglu gwastraff drwy beidio edrych ar y rhestr gasglu.

3.10 Gwelwyd fod busnesau sydd heb dalu anfonebau 2015-16 yn parhau i dderbyn gwasanaeth, ond yn y rhan fwyaf o'r achosion mae trefniant talu mewn lle neu fod y busnes wedi talu 2016-17 yn llawn. Trafodwyd yr eithriadau a chytunodd y Gwasanaeth i ymchwilio i'r anfonebau ble nad oes camau adennill mewn lle.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol gan fod rheolaethau yn bodoli, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Archwilio'r basdata er mwyn adnabod busnesau sydd ddim yn derbyn gwasanaeth casglu ailgylchu gan y Cyngor, a'r rhesymau pam e.e. bod ganddynt ddarpariaeth amgen mewn lle.
- Tynnu'r ffioedd oddi ar y wefan, a pheidio arddangos ffioedd 2017-18.
- Sicrhau bod casglwyr sbwriel y Gwasanaeth yn ymwybodol o Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth y Cyngor, yn ogystal â threfniadau Canu'r Gloch.
- Atgyfnerthu'r neges bod angen i'r casglwyr gwastraff wirio'r rhestr casglu.
- Adolygu'r rhestrau ôl-ddyledion, gan sicrhau bod trefniadau mewn lle i dderbyn taliad neu ystyried camau megis atal gwasanaeth iddynt.

Atodiad 13

**TREFNIADAU RECRIWTIO A PHENODI**
**YGC**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Polisi Recriwtio a Phenodi corfforaethol wedi ei sefydlu gyda'r bwriad pennaf o benodi'r swyddogion gorau i swyddi'r Cyngor. Ymhellach i hyn, mae'r gwaith bydd YGC yn ei ymgymryd ag ef yn aml iawn yn gofyn am wybodaeth a sgiliau arbenigol a cheir tystiolaeth o'r nodweddion yma o'r cymwysterau y mae ymgeiswyr wedi eu hennill. Pe bai swydd yn cael ei hysbysebu yn yr adran, sydd angen sgiliau arbenigol ar gyfer cyflawni'r gwaith, nodir meddiant o'r cymwysterau yma yn y Manylion Person sydd yn ymddangos gyda hysbyseb y swydd. Mae'r polisi yn nodi na phenodir unrhyw un nad yw'n gymwys ac yn cyrraedd y Manylion Person hanfodol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd edrych ar gydymffurfiad YGC â'r Polisi Recriwtio a Phenodi gan roi sylw arbennig i gymwysterau sy'n cael eu nodi fel hanfodol i'w meddu ar gyfer swyddi penodol. Gwnaethpwyd hyn drwy wirio ffurflenni cais a sicrhau bod y drefn yn cael ei dilyn wrth benodi unigolion. Cadarnhawyd fod cofnodion hyfforddiant enillydd y swydd yn nodi fod ganddynt y cymwysterau penodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae YGC yn dilyn polisïau recriwtio a phenodi staff y Cyngor, ac yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar beth sydd yn eu barn hwy orau wrth wneud apwyntiadau. Er hyn mae agweddau y gellir eu tynhau er mwyn cadarnhau tegwch a thryloywder i ymgeiswyr y swyddi.

3.1.1 Nid oedd gan y Gwasanaeth Cefnogol gopïau o ddogfennau allweddol, megis Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person swyddi fu y penodwyd iddynt fel rhan o'r ailstrwythuro. Mae hyn yn debygol o ddeillio o'r trefniant ble nad y Gwasanaeth Cefnogol, sy'n cadw'r dogfennau, yn rhan o'r broses penodi ail-strwythuro. Fodd bynnag, cafwyd sicrwydd fod y swyddi wedi eu harfarnu gan Adnoddau Dynol.

3.1.2 Er bod y polisi yn datgan mai dim ond ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr elfennau hanfodol o'r Manylion Person fyddai'n cael cyfweliad, gwelwyd fod ymgeiswyr eraill wedi eu cynnwys pan fo'r nifer o ymgeiswyr yn brin. Mewn achosion o'r fath, gellir dehongli fod y Cyngor yn gwastraffu adnoddau yn cyfweld ag ymgeiswyr anghymwys, neu yn rhoi cyfle i unigolion sydd yn rhoi cais i mewn am swyddi nad ydynt yn gymwys ar eu cyfer.

3.1.3 Mae cofnodion hyfforddiant a chymwysterau Adnoddau Dynol ar gyfer y Cyngor yn anghyflawn, ac felly ni ellir rhoi sicrwydd o gymwysterau unigolion yn seiliedig ar rheini.

3.1.4 Ar gyfer swyddi a ddetholwyd yn y sampl ble mae geirda wedi ei dderbyn, nid oeddent yn rai proffesiynol yn seiliedig ar waith yr unigolyn ond geirda cymeriad gan rai sy'n adnabod yr ymgeiswyr. Ni ymddengys bod hyn wedi effeithio ar y penodiad.

4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Nhrefniadau Recriwtio a Phenodi YGC gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae YGC wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Eisoes wedi trosglwyddo Swydd Ddisgrifiadau i Cefnogol, ac yn y broses o anfon Manylion Person. Cwblhau adolygu ac anfon Manylion Person at Cefnogol.
- Ystyried addasrwydd Manylion Person swyddi wrth eu hadolygu.
- Trafod y drefn hefo Rheolwyr Uned a chytuno ffordd ymlaen gyda'r Gwasanaeth Cefnogol.